WYT TI'N MANTEISIO AR DDARPARIAETHAU JEHOFA?

Nodyn i'r siaradwr:
Helpa'r gynulleidfa i werthfawrogi ffordd Jehofa o'n bwydo'n ysbrydol. Argymhella'r rhai newydd i fanteisio'n llawn ar bob darpariaeth ysbrydol sydd ar gael

GWRTHGYFERBYNIAD RHWNG DIGONEDD YSBRYDOL A NEWYN YSBRYDOL (4 mun.)

Mae Jehofa yn darparu'n helaeth ar gyfer pob un sydd eisiau gwybod y gwirionedd a chael Ei gymeradwyaeth

Mae'r Beibl yn disgrifio rhai o'r darpariaethau hyn fel "bwyd" am eu bod yn ein maethloni'n ysbrydol (Heb 5:14)

Rhagfynegodd y Beibl y byddai digonedd ysbrydol gan bobl Jehofa heddiw (Esei 2:2, 3; 25:6)

I'r gwrthwyneb, mae pobl eraill yn newynu'n ysbrydol **[Darllena Eseia 65:13, 14]** (Am 8:11)

SUT MAE JEHOFA YN DARPARU DROS EI BOBL? (4 mun.)

Er mwyn llenwi'n boliau ysbrydol rhaid adnabod sut mae Jehofa yn ein bwydo heddiw

Penododd Jehofa Iesu Grist yn ben ar y gynulleidfa Gristnogol (Mth 28:18; In 6:26, 27; Col 1:18)

Iesu sydd wedi penodi'r "gwas ffyddlon a chall" i ddarparu "bwyd . . . yn ei bryd" **[Darllena Mathew 24: 45-47, *BCND*]** (*w13*-E 7/15 20-22 ¶2, 8-10)

BETH YW DARPARIAETHAU JEHOFA? (7 mun.)

Gair Duw yw un o'r prif ddarpariaethau (Sal 119:105; In 17:17; 2Ti 3:16)

Mae'r Beibl yn esbonio cyflwr presennol y byd ac yn datgelu digwyddiadau'r dyfodol (2Ti 3:1; Dat 1:1)

Gair Duw sy'n dysgu ni sut i feithrin "natur o fath newydd" (Eff 4:23, 24; Heb 4:12)

Yr *ysbryd glân* sy'n helpu ni i ddeall Gair Duw a dwyn ffrwyth daionus (Ga 5:16, 22-25)

Henuriaid ffyddlon sy'n ein haddysgu a'n cynorthwyo (Eff 4:8, 11, 12)

Gair Duw a'i ysbryd ef sy'n cyfeirio'r gwas ffyddlon a chall wrth iddyn nhw gyflenwi darpariaethau ychwanegol

Mae *cyhoeddiadau â'u sail ar y Beibl* yn cael eu paratoi a'u cyfieithu i gannoedd o ieithoedd

Ceir addysg ysbrydol drwy jw.org a JW Broadcasting

Trwy *gyfarfodydd, cynulliadau, a chynadleddau* cyson cawn hyfforddiant yn ogystal â chymdeithas galonogol (Heb 10:24, 25)

Mae ymweliadau *arolygwyr teithiol* yn atgyfnerthu'r cynulleidfaoedd (Rhu 1:11, 12)

DANGOSA DY WERTHFAWROGIAD AT DDARPARIAETHAU JEHOFA (10 mun.)

Defnyddiwch holl ddarpariaethau Jehofa yn llawn

Byddwch yn fodlon addasu ac aberthu i fanteisio ar ddarpariaethau ysbrydol (Mth 13:44-46)

Roedd angen ymdrech personol i rannu mewn addoliad pur yn Israel

Addawodd Jehofa ei gefnogaeth a'i fendith i'r sawl a ymdrechai i flaenoriaethu pethau ysbrydol (Ex 34:24; *w98*-E 9/1 20 ¶5)

Efelychwch Iesu gan flaenoriaethu'r ysbrydol yn hytrach na'r materol (In 4:31-34)

Cymerwch yn beunydd o ddarpariaethau ysbrydol Jehofa (Jos 1:8; Sal 119:97)

Peidiwch â chymryd yn erbyn darpariaethau Jehofa

Gwelwn yn y Beibl hanesion rhybuddiol am rai oedd ag ysbryd anniolchgar (Nu 21:5, 6; 3In 9; *w99*-E 8/15 26)

Mae Jehofa yn defnyddio dynion amherffaith i'n cynorthwyo'n ysbrydol, er gwaethaf eu beiau maen nhw'n haeddu'n parch (1The 5:12, 13; Heb 13:17)

YN DDIEITHRIAD, BWYTEWCH WRTH FWRDD JEHOFA (5 mun.)

Nid yw Jehofa yn dosbarthu bwyd ysbrydol drwy gyfundrefnau niferus ac anghytûn eu credoau (Eff 4:4, 5)

Ni allwn fwyta wrth fwrdd Jehofa yr un pryd â rhannu mewn addoliad ffals (1Co 10:21)

Nid yw gau grefydd wedi darparu maeth ysbrydol (2Ti 4:3, 4)

Glynwch wrth y rhai sy'n edrych at Jehofa, yr un sy'n diwallu anghenion ei weision (Sal 145:15-18)

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School,* tudalennau 52-55, 166-169, a'r llyfryn *Darllen a Dysgu,* gwersi 4, 6, 8, 13, 14, 19]

© 2018 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania